


Defaid Glân i'w lladd Canllaw i gynhyrchwyr



ASiantaeth
SAFONAU
BWYD

Defaid Glân a Diogelwch Cig – cymryd y camau priodol

Cynnwys

	Tudalen		
Cyflwyniad	4	Paratoi defaid i'w lladd	21
Peryglon diogelwch bwyd	5	Cludo defaid sydd wedi'u pesgi	23
Anifeiliaid glân i'w lladd	5	Lles defaid	24
Manteision cynhyrchu defaid glân	6	Casgliad	24
Pa mor lân yw fy nefaid?	8	Atodiad 1	26
Cadw defaid yn lân yn ystod y broses besgi	8	Gofynion deddfwriaethol ar gyfer anifeiliaid glân adeg eu lladd	
Pesgi ar laswellt	8	Atodiad 2	27
Pesgi ar wreiddiau a chnydau porthiant	10	Dosbarthu defaid o ran glendid	
Deietau pesgi ar gyfer defaid a gedwir dan do	12	Atodiad 3	30
▪ Deietau silwair a gwreiddiau	12	Diogelwch bwyd a HACCP	
▪ Deietau gwair	12	Atodiad 4	31
▪ Deietau yd dwys	13	Faint o le yr awgrymir ei roi i ddefaid a gedwir dan do	
▪ Ffactorau deietegol eraill	13	Atodiad 5	32
Cadw defaid dan do	15	Gofynion deddfwriaethol ar gyfer lles defaid	
▪ Dyluniad cyffredinol adeiladau	15	Rhagor o wybodaeth	34
▪ Iardiau â gwellt gwely	16		
▪ Adeiladau â lloriau delltog	18		
Iechyd defaid	18		
Clipio defaid cyn eu hanfon i'r farchnad	21		

Ar gyfer pwy y mae'r llyfryn cyfarwyddyd hwn?

Bwriedir y llyfryn cyfarwyddyd hwn ar gyfer pawb sy'n gysylltiedig â'r gadwyn cyflenwi defaid, megis ffermwyr, cludwyr, milfeddygon, a'r rhai sy'n gweithio mewn lladd-dai a marchnadoedd. Ei nod yw rhoi cyngor ar sut i gynhyrchu defaid glân i'w lladd.

Cyflwyniad

Gall cynhyrchu defaid glân i'w lladd fod yn dasg anodd, yn arbennig mewn tywydd gwlyb ac wrth besgi defaid ar wreiddiau a chnydau porthiant yn ystod y gaeaf. Fodd bynnag, os caiff cnuoedd eu halogi â thail a baw ar adeg eu lladd, mae risg wirioneddol y caiff y cig ei halogi â bacteria niweidiol, megis *E. coli* O157, *Campylobacter* a *Salmonella*. Ni all y lladd-dai mwyaf hylan hyd yn oed sicrhau y byddant yn atal y carcass rhag cael ei halogi ac na chroeshalogir carcassau wrth eu trin. Dengys canlyniadau gwaith ymchwil po fryntaf y cnuoedd, y mwyaf tebygol yw hi y caiff y carcass ei halogi ac y caiff iechyd dynol ei beryglu. Gall cnuoedd gwlyb hefyd gynyddu'r risg oherwydd gall bacteria gael ei drosglwyddo'n haws.

Peryglon diogelwch bwyd

Gall *E. coli* O157, a bacteria niweidiol eraill megis *Salmonella* a *Champylobacter*, fyw yn llwybr traul defaid heb eu gwneud yn sâl, a gallant ymddangos yn nhail anifeiliaid sydd wedi'u heintio. Felly, efallai na fydd ffermwyr na milfeddygon yn sylwi bod preiddiau wedi'u heintio. Amcangyfrifir bod cig defaid yn gyfrifol am dros 46,000 o achosion o glefydau cynhenid a gludir mewn bwyd bob blwyddyn, sef 3% o bob achos¹. Mae *E. coli* O157 yn un enghraifft o organeb sydd wedi dod i'r amlwg yn ddiweddar oherwydd y ffaith y gall niferoedd bach iawn achosi clefydau difrifol mewn pobl, a hyd yn oed arwain at farwolaeth.

Anifeiliaid glân i'w lladd


Ar ôl i'r defaid gyrraedd y lladd-dy, bydd gweithredwr y safle yn asesu eu glendid ac yn penderfynu a ydynt yn ddigon glân i gael eu lladd. Bydd penderfyniadau yn ymwneud â glendid yn cynnwys asesu faint o dail a baw sydd arnynt yn ogystal â pha mor wlyb yw'r cnu. Gellir defnyddio system o ddosbarthu anifeiliaid i gategorïau gwahanol, sy'n debyg i'r hyn a amlinellir yn y Polisi Da Byw Glân, er mwyn gwerthuso p'un a ellir lladd yr anifeiliaid. Rhaid i Swyddog y Gwasanaeth Hylendid Cig (MHS)² sicrhau na fydd y safonau glendid derbyniol a ddefnyddir gan weithredwr y lladd-dy wrth ddosbarthu defaid yn peryglu diogelwch y cig. Mae Atodiad 1 yn nodi'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i anifeiliaid glân adeg eu lladd ac mae'n gywir ar adeg ei gyhoeddi. Mae'r wybodaeth ar gael hefyd yn y Guide to Food Hygiene and Other Regulations for the UK Meat Industry, rhan 2, pennod 9, sydd ar gael ar-lein yn www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/mguide6dec06.pdf

¹ Adak, G.K., Meakins, S.M., Yip, H., Lopman, B.A. ac O'Brien, S.J. (2005). Disease risks from foods, England and Wales, 1996-2000. *Emerging Infectious Diseases* 11 (3).

² Nid yw'r MHS yn gweithredu yng Ngogledd Iwerddon. Caiff y gwaith swyddogol o oruchwylio a gorfodi mewn Safleoedd Trwyddedig ei wneud gan yr Adran Amaethyddiaeth a Datblygu Gwledig ar ran yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Manteision cynhyrchu defaid glân

Mae bryntni fel arfer yn deillio o gyfuniad o faw a thail, sy'n cynyddu'r risg o halogiad bacteriol. Mae cnuoedd mwdlyd a gwlyb sydd wedi'u halogi â thail yn anodd eu trin mewn lladd-dai ac mae'n ei gwneud yn fwy tebygol y caiff y carcass ei halogi gan facteria. Gall nifer yr achosion o halogi â thail fod yn sylweddol o amgylch cynffonnau defaid os byddant yn ysgothi. Mae sicrhau bod defaid yn lân adeg eu lladd yn lleihau'r risg bosibl i iechyd dynol, yn cyfrannu at y gwaith o gynhyrchu cig yn ddiogel, ac yn gwella oes silff y cig.



Neges allweddol

Gall bacteria niweidiol ar y cnu gael ei drosglwyddo i'r carcass

Sicrhewch fod defaid yn lân pan ânt i gael eu lladd

Mae'r Gorchmynion Rheoli Clefydau yng Nghymru a Lloegr yn gwahardd unrhyw un rhag anfon anifeiliaid i ladd-dy oni bai eu bod yn cael eu lladd o fewn 48 awr. Golyga hyn fod yn rhaid i anifeiliaid fod yn ddigon glân i gael eu lladd ar gyfer bwyd o fewn 48 awr ac ni ellir eu dychwelyd os na chyflawnir hyn. Yn yr Alban ni chaiff anifeiliaid ddychwelyd i'r daliad y daethant ohono fel arfer oherwydd ystyriaethau bioddiogelwch. Fodd bynnag, mewn amgylchiadau eithriadol, gall y Milfeddyg Swyddogol ganiatáu i anifeiliaid byw ddychwelyd i'w fferm wreiddiol ar yr amod bod cyfnod cadw priodol, o dan Orchymyn Rheoli Clefydau (Mesur Dros Dro) (Yr Alban) 2002, yn gymwys. Tri diwrnod ar ddeg yw hwn ar gyfer defaid. Yng Ngogledd Iwerddon darperir cyfleusterau mewn lladd-dai er mwyn clipio anifeiliaid brwnt fel na chaiff anifeiliaid o'r fath eu dychwelyd i'r fferm.

Yn ogystal, mae achosion o halogi â thail yn achosi niwed anadferadwy i'r croen sy'n golygu ei fod yn werth cryn dipyn yn llai i ddiwydiant trin lledr Prydain. Felly gall tanerddai fewnforio crwyn defaid o dramor am bris premiwm er mwyn sicrhau ansawdd tra caiff ein crwyn ein hunain eu hallforio am lai na'r uchafswm gwerth. Gallai'r golled hon o ran reffeniw gael ei throsglwyddo'n ôl i'r sector defaid yn y DU pe gellid sicrhau ansawdd.

Ymhlith canlyniadau cyflenwi defaid brwnt mae:

- Costau ychwanegol ac anghyfleustod lle cedwir anifeiliaid brwnt yn y llociau i'w glanhau yn y lladd-dy.
- Cost llinell ladd arafach.
- Gwerth gostyngol y carcass o ganlyniad i docio gormodol.
- Gwerth gostyngol sgil-gynhyrchion h.y. crwyn defaid.
- Colli'r carcass cyfan.

Pa mor lân yw fy nefaid?

Dengys Atodiad 2 enghreifftiau o ddefaid yr aseswyd eu bod yn ddigon glân i gael eu hanfon i'w lladd a defaid sy'n rhy frwnt i gael eu hanfon i'w lladd, yn enwedig os ydynt yn wlyb. Mae'r enghreifftiau hyn yn rhoi canllawiau ar y lefelau o lendid defaid a ddisgwylir yn ystod cyfnodau pesgi a chyn iddynt adael y fferm.

Efallai y bydd angen i weithredwr y safle gadw unrhyw anifeiliaid nad ydynt yn bodloni gofynion glendid sylfaenol y lladd-dy yn y llociau i'w sychu ac efallai y bydd angen eu clipio neu eu trin mewn ffordd arall cyn eu lladd. Mae hefyd yn bosibl y caiff defaid eu gwrthod. Mae treulio mwy o amser mewn llociau, clipio, arafu'r llinell ladd a gwrthod anifeiliaid oll yn golygu bod cynhyrchwyr a gweithredwyr yn mynd i gostau ychwanegol. Felly mae sicrhau bod defaid yn lân pan gânt eu hanfon i'w lladd er budd pawb.

Cadw defaid yn lân yn ystod y broses besgi

Mae deiet, yr adeiladau lle y'u cedwir, iechyd defaid, tywydd a'r math o bridd y maent yn pori arno yn effeithio'n benodol ar lendid defaid. Bydd defnyddio'r cyngor yn y llyfryn hwn yn helpu i gadw defaid yn lân ar gyfer eu lladd, a gall dilyn gweithdrefnau Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol (HACCP) o ran rheoli a chynhyrchu defaid lleihau'r risg o halogiad ymhellach (gweler Atodiad 3 am ragor o wybodaeth am weithdrefnau HACCP).

Pesgi ar laswellt

Mae defaid sy'n pesgi ar laswellt yn gymharol lân, ond gall hafau gwlyb a phriddoedd trwm a ddraenir yn wael arwain at anifeiliaid gwlyb a mwdlyd. Mae heintiau sy'n gysylltiedig â llyngyr gastroberfeddol a phori ar laswellt ifanc gwyrddlas yn cynyddu'r risg o ysgothi a halogi â thail. Mae defnyddio gormod o wrtaith nitrogen a gorfwydo mwynau hefyd yn gwneud i ddefaid ysgothi ac yn arwain at gnu brwnt.

Dylid ystyried y pwyntiau canlynol wrth gynhyrchu a phesgi defaid ar laswellt:

- Cynllunio rhaglen wrtaith briodol cyn wyna a chyn troi'r defaid allan.
- Cynllunio rhaglen rheoli parasitiaid briodol gyda'ch cynhorwr milfeddygol cyn wyna (ceisiwch gydymffurfio â chyfnodau cadw o'r gadwyn fwyd ar gyfer meddyginiaethau gwrthlyngyrol).
- Sicrhau bod gwair ar gael i ddefaid pan fyddant yn pori ar laswellt gwyrddlas, neu yn ystod cyfnodau hir o dywydd gwlyb.
- Symud cafnau bwydo cylch, rheseli gwair a chafnau didol yn aml er mwyn osgoi sathru a mwd.
- Glanhau cyrsiau dŵr yn rheolaidd, yn enwedig rhwng preiddiau, er mwyn lleihau'r risg o halogiad.
- Trin diffygion penodol o ran mwynau a fitaminau y gwyddoch amdanynt yn eich pridd ac osgoi cyflenwi atchwanegiadau cyffredinol yn rheolaidd.
- Dim ond yn ystod cyfnodau o risg y dylid rhoi magnesiwm i anifeiliaid sy'n debygol o gael clefyd.

Pesgi ar wreiddiau a chnydau porthiant


Defaid sy'n pesgi ar wreiddgnydau, cêl, betys siwgr, a mathau eraill o gnydau porthiant sydd fwyaf tebygol o fod yn wlyb ac yn frwnt. Gellir gwella glendid drwy ddilyn y canllawiau rheoli isod:

- Rhoi defaid i bori ar dir ysgafn a ddraenir yn rhydd, os yn bosibl, yn enwedig cyn eu hanfon i'r farchnad.
- Torri caglau defaid cyn eu troi allan i gnydau pesgi.
- Rhoi meddyginiaeth wrthlyngyrol sbectrwm eang i ddefaid cyn eu symud i gnydau pesgi (sicrhewch eich bod yn cydymffurfio â'r cyfnodau cadw o'r gadwyn fwyd ar gyfer meddyginiaethau gwrthlyngyrol).
- Galluogi defaid i addasu i gnwd newydd yn raddol drwy gyfyngu ar faint o gnwd sydd ar gael i ddechrau – mae ardal o borfa dros dro yn ddelfrydol.
- Cynyddu faint o gnydau sydd ar gael yn raddol a pharhau i sicrhau bod cyflenwad cyson.
- Os defnyddir dwysfwydydd, rhaid eu cyflwyno'n araf ac yn ofalus er mwyn osgoi amharu ar y system dreulio.
- Darparu gwair bob amser er mwyn lleihau achosion o amharu ar y system dreulio.
- Dylid symud rheseli a chafnau'n aml er mwyn osgoi creu ardaloedd corsiog lle mae defaid yn mynd yn frwnt.
- Sicrhau bod gan ddefaid ardal orwedd sych bob amser. Ar dir sy'n draenio'n rhydd mewn tywydd da gall yr ardal gnydau ei hun fod yn ddigon ond mae ardal o borfa dros dro yn well. Ar dir trwm, neu yn ystod tywydd gwlyb, dylid cynnal ardal o borfa dros dro neu ardal wellt er mwyn i ddefaid allu gorwedd mewn man glân.

- Sicrhau bod digon o gysgod ar gael ar gyfer y praidd cyfan yn ystod tywydd gwael. Os nad oes digon o gysgod, bydd y praidd yn gwasgu at ei gilydd yn yr ardaloedd hyn a byddant yn sathru ac yn mynd yn frwnt yn gyflym.

Mae tywydd garw ac amodau tir gwael yn gwneud anifeiliaid yn frwnt a gall fod angen cadw anifeiliaid dan do cyn eu lladd i'w glanhau a'u sychu. Yna efallai y gellir anfon defaid sy'n wlyb neu ychydig yn frwnt i'r farchnad o fewn tua diwrnod, ond os gadewir i ddefaid fynd yn frwnt iawn, gall fod angen eu cneifio rhywfaint.

I grynhoi, mae dylunio a rheoli adeiladau lle y cedwir defaid yn dda, a fydd yn annog glendid, yn amlwg yn bwysig. Mae angen cymryd gofal i leihau'r risg o amharu ar y system dreulio o ganlyniad i newid deiet pan gaiff defaid eu cadw dan do, ac argymhellir rhoi gwair iddynt cyn ac ar ôl eu cadw dan do.



Deietau pesgi ar gyfer defaid a gedwir dan do

Deietau silwair a gwreiddiau

Deietau silwair a gwreiddiau sydd fwyaf tebygol o arwain at fryntni gweledol oherwydd eu bod yn creu llawer o dail gwlyb.

Mae angen silwair y gellir ei dreulio'n dda ac sy'n cynnwys protein ar gyfer perfformiad cynhyrchu da, ond er mwyn lleihau'r tebygolrwydd o gael defaid brwnt dylech:

- Defnyddio meintiau priodol o wrtaith ar gaeau silwair ac ni ddylid defnyddio gwartaith o fewn chwe wythnos i'r dyddiad torri disgwylidiedig.
- Gwywo'r silwair yn dda pan fydd y tywydd yn caniatáu.
- Dadansoddi silwair cyn bwydo. Gall hyn eich galluogi i glustnodi'r silwair mwyaf addas ar gyfer ŵyn pesgi.
- Defnyddio dadansoddiadau bwyd i gydbwyso protein a lefelau egni yn gywir yn y dogn.
- Peidio â bwydo silwair asidig i ddefaid.

Deietau gwair

Mae deietau gwair yn cynhyrchu defaid cymharol lân, ond prin y cânt eu defnyddio ar gyfer anifeiliaid pesgi perfformiad uchel, oherwydd eu gwerth maethol isel.

Deietau yd dwys

Mae'r dognau hyn yn cynhyrchu ychydig o dail sych ac felly bydd defaid yn ymddangos yn lân ar y cyfan. Fodd bynnag, gall problemau iechyd ddigwydd, gan gynnwys ysgothi, os cyflwynir neu newidir deiet yd dwys yn rhy gyflym, os yw'n faethol anghytbwys, os oes diffyg ffibr yn y deiet, neu os caiff yd ei falu'n rhy fân. Dylech felly:

- Sicrhau bod y dogn yn gytbwys o ran protein, egni, mwynau a fitaminau.
- Sicrhau bod gwellt ar gael o gafn neu gafn cylch (nid o'r gwellt gwely yn unig) neu ddarparu rhywfaint o wair.
- Bwydo yd cyfan – nid oes angen ei rollo na'i falu ar gyfer defaid ac mae hynny'n cynyddu'r risg o asidosis ac ysgothi.

Ffactorau deietegol eraill

Mae gorfwydo mwynau, yn arbennig magnesiwm a halen, yn cynyddu'r risg o halogi'r cnu â thail drwy achosi ysgothi ysgafn a chynyddu faint o wrin a gaiff ei gynhyrchu. Dylid cyfyngu ar faint o fwynau a halen a roddir i ddefaid oherwydd maent yn tueddu i fwyta mwy nag sydd ei angen arnynt.

Mae trin yd a gwellt â soda costig yn cynyddu faint o sodiwm a fwyteir a faint o wrin a gynhyrchir a gall achosi ysgothi ysgafn, gan gynyddu'r risg o fryntni.

Gall newid y bwyd a roddir yn sydyn amharu ar y system dreulio ac arwain at ysgothi, perfformiad gwael a bryntni.

Ceisiwch:

- Fwydo mwynau a grëir yn ôl y math o ddeiet ac ar lefelau sy'n briodol i'r math o stoc.
- Osgoi defnyddio mwynau anghyfyngedig neu lyfleoedd halen.
- Osgoi defnyddio porthiannau a gaiff eu trin â soda costig mewn dognau pesgi.
- Newid deietau yn raddol bob amser.

Neges allweddol

Caiff bacteria niweidiol mewn bwyd a dŵr ei waredu mewn tail/ysgarthion

Cadwch dir pori yn segur am gyfnod, cadwch ddŵr yn lân a cheisiwch osgoi cludo defaid yn syth o dir pori



Cadw defaid dan do

Dyluniad cyffredinol adeiladau

Mae systemau awyru, draenio ac wyneb wedd dda yn ystyriaethau pwysig ar gyfer adeilad defaid da. Mae lleithder ac anwedd dŵr mewn adeiladau a gaiff eu hawyru'n wael yn arwain at ddefaid llaith a brwnt. Mae arwynebedd llawr anwastad, system ddraenio wael a thoeon, gwteri a chafnau dŵr sy'n gollwng hefyd yn arwain at gnuoedd gwlyb a brwnt. Dylech geisio cyflawni'r canlynol:

- Awyru adeiladau defaid yn dda.
- Lloriau concriid sy'n goleddu digon fel bod system ddraenio ddigonol, a gwaredu dŵr brwnt er mwyn atal llygredd.
- Lloriau heb dyllau, a thoeon, gwteri a chafnau dŵr sydd wedi eu cynnal a'u cadw yn dda.

- Trefniadau bwydo a gynlluniwyd i osgoi halogi porthiannau â thail.
- Defnyddio rhwystrau cadarn rhwng grwpiau o ddefaid pesgi er mwyn helpu i osgoi halogiad.
- Adeiladau sydd wedi'u hamgáu'n gyfan gwbl â'r echelin hydredol yn rhedeg o'r gogledd i'r de.
- Llociau sy'n agored yn y blaen sy'n wynebu'r de neu'r de-ddwyrain.

Neges allweddol

Gall bacteria niweidiol ledaenu rhwng llociau a grwpiau o ddefaid


Lle y bo'n bosibl, defnyddiwch raniadau cadarn rhwng grwpiau o ddefaid pesgi

Iardiau â gwellt gwely

Cadw gormod o stoc a phrinder gwellt gwely neu beidio â newid gwellt gwely yn ddigon aml yw'r prif resymau dros fryntni mewn llociau â gwellt gwely. Ni fydd darparu gwellt ychwanegol yn gwneud iawn am gadw gormod o stoc. Bydd peiriannau malu gwellt yn creu gwellt gwely yn gyflym ac yn wastad, ond dengys gwaith ymchwil fod yn rhaid defnyddio digon o wellt er mwyn cadw anifeiliaid yn lân. Yn aml daw ardaloedd ger cafnau bwydo yn arbennig o wlyb a brwnt.

- Sicrhau bod cyfraddau stocio yn briodol ar gyfer maint a nifer y defaid (nodir y cyfraddau gorau posibl yn Atodiad 4).
- Taenwch ddigon o wellt gwely yn aml er mwyn sicrhau glendid, gan dalu sylw arbennig i'r ardal fwydo.

- Nid yw defnyddio peiriant malu gwellt yn golygu defnyddio llai o wellt.
- Dylech storio gwellt gwely o dan orchudd, wedi'i lapio neu wedi ei orchuddio'n dda â defnydd plastig a'i gadw ar safle sy'n draenio'n rhydd.



Neges allweddol

Gall bacteria niweidiol ledaenu o wellt gwely brwnt

Sicrhewch fod y gwellt gwely ar y fferm, mewn marchnadoedd, mewn llociau neu wrth gludo anifeiliaid yn lân.

Adeiladau â lloriau delltog

Weithiau defnyddir llociau delltog ar gyfer defaid ond, am resymau lles, ni ddylid eu defnyddio ar gyfer ŵyn newydd-anedig neu ŵyn ifanc oni bai fod gwellt gwely addas ar gael hefyd. Mae'r risg o fryntni yn uwch ar ddellt ac mae'n debygol y bydd angen trimio rhywfaint o gnu'r defaid cyn eu gwerthu.

Mae cadw'r nifer cywir o anifeiliaid ar ddellt yn hanfodol drwy gydol y cyfnod dan do (gweler Atodiad 4). Gall cadw gormod o stoc a dim digon o stoc gyfyngu ar faint o sathru tail sy'n digwydd drwy'r dellt gan arwain at fryntni.

Rhaid rhoi mwy o le i ŵyn ysgafn wrth iddynt dyfu. Pan gaiff anifeiliaid eu hanfon i'r farchnad, mae angen lleihau'r gwagle ar gyfer y defaid sy'n weddill drwy gyfuno grwpiau neu ddefnyddio gatieu symudol. Dylai fod digon o le i'r defaid fwyta heb orfod lleihau'r stoc.

- Sicrhewch fod y cyfraddau stocio yn briodol (nodir y cyfraddau gorau posibl ar gyfer llociau a chafnau bwyd yn Atodiad 4).
- Sicrhewch fod y storfa tail a pha mor aml y caiff ei gwacáu yn ddigonol i rwystro tail rhag casglu mewn dellt.
- Mae powlenni yfed yn well na chafnau dŵr oherwydd maent yn lleihau'r ardaloedd a gaiff eu rhwystro lle y gall tail gasglu.

Iechyd defaid

Mae unrhyw glefyd neu anhwylder sy'n achosi ysgothi yn cynyddu'r risg o gnu brwnt. Gall cnuoedd anifeiliaid chwyslyd fynd yn llaith. Yn ogystal, mae salwch yn lleihau gallu cyffredinol anifail i wrthsefyll clefyd; felly bydd defaid sâl yn fwy tueddol o gael heintiau eraill, megis *E. coli* a *Salmonella*. Felly, mae rheoli iechyd cyffredinol praid yn dda yn bwysig er mwyn lleihau'r risg o ddefaid yn cario organebau pathogenaidd adeg eu lladd, a allai arwain at wenwyn bwyd ymhlith pobl.

Dylech gynllunio rhaglen iechyd ataliol gyffredinol gyda'ch cynghorwr milfeddygol a ddylai gynnwys:

- Prynu defaid cryf ac iach yn unig – o ffynhonnell adnabyddus os yn bosibl.
- Deiet cytbwys.
- Atal coccidiosis a salmonellosis drwy sicrhau hylendid da, rheoli tir pori'n dda a defnyddio meddyginiaeth filfeddygol yn briodol.
- Rhaglen frechu briodol i atal afiechydon clostridiol.
- Rhaglen rheoli llyngyr briodol – dylid cynnal system pori glân, lle bynnag y bo'n bosibl, er mwyn lleihau achosion o lyngyr a'r angen am feddyginiaeth gwrthlyngyrol.
- Atal achosion o ddiffyg copr neu wenwyndra – gall copr fod yn niweidiol i ddefaid a dylid osgoi porthiannau cyfansawdd neu fwynau atodol a baratowyd ar gyfer rhywogaethau eraill.
- Cyflenwad priodol o fwynau/fitaminau atodol sydd wedi'u cydbwysu'n gywir.
- Atal niwmonia.
- Hylendid cyffredinol a stocmoniaeth dda.
- Glanhau a diheintio arwynebau a llociau yn rheolaidd i leihau'r risg o halogi.
- Sicrhau rheolaeth dda o ectoparasitau, fel y clafr a llau, a all achosi gofid mawr i ddefaid a hefyd niweidio'r cnu a'r croen.



Neges allweddol

Gall bacteria niweidiol oroesi a lledaenu mewn amgylchedd brwnt

Cadwch lorïau, arwynebau ac offer clipio ar y fferm, mewn marchnadoedd, mewn llocïau ac wrth gludo anifeiliaid yn lân ac wedi'u diheintio

Clipio defaid cyn eu hanfon i'r farchnad

Dylid torri caglau ŵyn cyn eu pesgi ar wreiddiau a chnydau porthiant neu dan do ar silwair.

Weithiau caiff y gwlân ar foliau ŵyn ei glipio cyn eu symud i bori er mwyn lleihau bryntni. Fodd bynnag, gall eu clipio ar yr adeg hon arwain at faw yn cronni'n agosach i'r croen, lle mae'n anoddach cael gwared arno. Gall hyn olygu bod angen eu clipio eto cyn eu gwerthu, gan leihau gwerth y croen a golygu cael llai o arian am y ddafad. Dylech:

- Dorri caglau ŵyn cyn eu cyflwyno i gnydau/deietau pesgi.
- Peidio â chlipio'r gwlân ar foliau defaid tan eu bod yn barod i gael eu gwerthu – mae'n well clipio anifeiliaid mor agos â phosibl at adeg eu gwerthu, a dylid eu cadw ar wellt gwely glân a sych ar ôl eu clipio.
- Bod yn ofalus wrth glipio er mwyn osgoi anafu'r anifail – sicrhewch eich bod yn dal y ddafad yn dynn ac yn defnyddio offer clipio sydd wedi'i gynnal a'i gadw'n dda gyda chrib priodol i osgoi torri'r croen.

Paratoi defaid i'w lladd

Yn amlwg, dylid ceisio atal anifeiliaid rhag mynd yn frwnt yn y lle cyntaf, ond gall fod angen eu glanhau rhywfaint cyn eu gwerthu neu cyn eu symud i'r farchnad neu ladd-dy (gweler Atodiad 1 am y rheoliadau). Mae bridiau â chnuoedd hir yn fwy tebygol o fynd yn frwnt iawn na bridiau â chnuoedd byr, felly gall fod angen rhoi sylw ychwanegol iddynt cyn eu hanfon i'r farchnad.

- Archwiliwch bob anifail yn rheolaidd yn ystod y broses besgi a chyn iddo adael y fferm, defnyddiwch yr enghreifftiau a ddangosir yn Atodiad 2 fel canllaw ar lefelau derbyniol o lendid.

- Ar gyfer defaid sy'n pesgi ar silwair, gwreiddiau a grawn bragwyr, dylech ystyried newid i ddogn sychach (e.e. dogn uwch o yd) wrth i ddefaid nesáu at ddiwedd y cyfnod pesgi.
- Bydd cadw defaid dan do dros nos cyn eu lladd yn lleihau llawnder y perfedd ac yn helpu i rwystro'r risg y caiff y carcass ei halogi yn ystod y broses ladd.
- Ceisiwch osgoi golchi defaid sydd wedi'u pesgi cyn eu lladd. Mae cnuoedd gwlyb wedi cael eu cysylltu â'r lledaeniad cynyddol o facteria i garcasau.



Neges allweddol

Gall cnuoedd gwlyb gynyddu lledaeniad bacteria niweidiol

Cadwch ddefaid yn lân (ac yn sych) – am o leiaf 24 awr cyn eu lladd lle y bo hynny'n bosibl

Cludo defaid sydd wedi'u pesgi

Wrth gludo anifeiliaid i'r farchnad neu ladd-dy dylid dilyn y canllawiau canlynol:

- Defnyddiwch gludwr/cerbyd cludo trwyddedig dibynadwy.
- Dylid glanhau a diheintio cerbydau rhwng llwythi er mwyn lladd bacteria a chlefydau yn unol ag unrhyw ddeddfwriaeth bresennol, megis Gorchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Lloegr) (Rhif 3) 2003³, a'r Gorchymyn Rheoli Clefydau perthnasol. Mae rheoliadau cyfatebol yng Nghymru a'r Alban yn berthnasol. Dylai ffermwyr a chlodwyr gysylltu â swyddfa leol yr Adran Amaethyddiaeth am gyngor ar reoliadau bioddiogelwch cyfredol.
- Dylai cerbydau fod wedi'u hawyru'n dda.
- Dylid darparu gwellt gwely – argymhellir defnyddio digon o wellt glân a ffres. Dylid osgoi defnyddio blawd llif gan ei fod yn glynu wrth gnioedd a gall achosi problemau pan gaiff carcass yr anifail ei drin.
- Dylai anifeiliaid fod yn sych wrth gael eu llwytho a'u cadw'n sych.
- Dylid osgoi cymysgu anifeiliaid.
- Dylai'r cyfraddau stocio fod yn unol ag argymhellion Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludiant) 1997⁴ a dylai rhai anifeiliaid allu gorwedd yn ddiogel. Dylid defnyddio rhaniadau, lle y bo hynny'n briodol, er mwyn atal anafiadau lle nad oes digon o stoc.
- Dylai hyd a phellter y daith fod yn unol â gofynion Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludiant) 1997⁴. Awgryma tystiolaeth fod glendid gweledol a bacteriol yn gostwng wrth i hyd a phellter y daith gynyddu.

³ Gorchymyn Cludo Anifeiliaid a Dofednod (Glanhau a Diheintio) (Gogledd Iwerddon) 2000. Gorchymyn Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Cymru) 2003. Rheoliadau Cludo Anifeiliaid (Glanhau a Diheintio) (Yr Alban) 2000 Rhif 167.

⁴ Gorchymyn Lles Anifeiliaid (Cludiant) (Gogledd Iwerddon) 1997.

Dylid addasu deiet anifeiliaid neu beidio â'u bwydo am gyfnod byr cyn eu cludo, er mwyn lleihau achosion o faeddu'r gwellt gwely ac anifeiliaid eraill yn ystod y daith.




Lles defaid

Mae gan berchenogion ar rhai sy'n gofalu am ddefaid gyfrifoldeb cyfreithiol dros warchod lles anifeiliaid bob amser. Mae Atodiad 5 yn disgrifio'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i les defaid.

Casgliad

Bydd dilyn y cyngor yn y llyfryn hwn yn helpu i sicrhau yr anfonir defaid glân i'w lladd. Bydd anfon defaid glân i'w lladd yn dod â manteision sylweddol i'r cynhyrchydd, gweithredwr y lladd-dy, y manwerthwr, y defnyddiwr, a phawb sy'n rhan o'r gadwyn gynhyrchu. Bydd hefyd yn helpu i gynyddu hyder defnyddwyr yng nghig oen y DU.

Mae amrywiaeth o bosteri sy'n pwysleisio'r chwe neges allweddol ar gyfer cynhyrchu defaid glân i'w lladd hefyd. Mae'r posteri hyn ar gael am ddim. Am ragor o fanylion ar sut i archebu'r posteri hyn ac unrhyw ddeunyddiau eraill yn ymwneud â Da Byw Glân ewch i dudalen 34.



Atodiad 1: Gofynion deddfwriaethol ar gyfer anifeiliaid glân adeg eu lladd

Mae Rheoliadau Hylendid Bwyd cyfredol yr UE (Rhif CE 852/2004, Rhif CE 853/2004 a Rhif CE 854/2004) yn pwysleisio cyfrifoldeb pob gweithredwr busnes bwyd (gan gynnwys gweithredwyr lladd-dai) i gynhyrchu bwyd yn ddiogel drwy gymhwyso arferion hylendid da a gweithdrefnau rheoli diogelwch bwyd yn seiliedig ar egwyddorion dadansoddi peryglon a phwynt rheoli critigol (HACCP). Mae Rheoliad 853/2004 (H2) y CE yn darparu'r gofynion o ran rheoli hylendid adeg lladd anifeiliaid ac yn nodi y dylai anifeiliaid fod yn 'lân' cyn cael eu derbyn ar safle'r lladd-dy.

Mae Rheoliad 854/2004 (H3) y CE yn nodi na all anifeiliaid â chrwyn neu gnuedd sy'n peri risg annerbyniol o halogi cig yn ystod y broses ladd gael eu lladd i'w bwyta gan bobl oni chânt eu glanhau ymlaen llaw.

Gallwch weld y wybodaeth yn y Guide to Food Hygiene and Other Regulations for the UK Meat Industry, rhan 2, pennod 9, sydd ar gael ar-lein yn www.food.gov.uk/multimedia/pdfs/mguide6dec06.pdf


Atodiad 2: Dosbarthu defaid o ran glendid

Gellir defnyddio'r lluniau yn yr atodiad hwn i asesu glendid defaid cyn iddynt adael y fferm.

Ystyrir bod anifeiliaid sych sy'n ymddangos yn debyg i'r enghreifftiau a roddir isod, neu sy'n lanach na hwy, yn ddigon glân i gael eu lladd.



Rhywfaint o faw/tail ac ychydig o wellt/gwellt gwely ar y cnu.



Y dudalen hon:

Chwith uchaf: Rhywfaint o faw/tail ar y cnu.

Dde uchaf: Rhywfaint o faw/tail ar y cnu. Mae caglau'r ddafad hefyd wedi cael eu torri.

Chwith: Sych ond â mwy o faw/tail na'r enghreifftiau blaenorol, gyda rhywfaint o wellt/gwellt gwely ar y cnu.

Y dudalen gyferbyn

Chwith uchaf: Ochr isaf dafad â chryn dipyn o faw/tail ar y cnu.

Dde uchaf: Dafad laith â chryn dipyn o faw/tail ar y cnu a chryn dipyn o wellt/gwellt gwely.

Gwaelod: Cryn dipyn o faw/tail ar y cnu a chryn dipyn o wellt/gwellt gwely.

Mae'n debygol y bydd angen rhoi sylw ychwanegol i anifeiliaid sy'n fryntach na'r enghreifftiau isod yn y lladd-dy, yn enwedig os ydynt yn wlyb. Os bydd rhaid i weithredwr y lladd-dy gadw anifeiliaid cyn eu lladd, arafu'r llinell ladd neu gymryd mesurau ychwanegol, byddant yn mynd i gostau ychwanegol.



Atodiad 3: Diogelwch Bwyd a HACCP

Mewn system Dadansoddi Peryglon a Phwynt Rheoli Critigol (HACCP), Nodir pob perygl posibl i ddiogelwch bwyd ar bob cam o'r gadwyn gynhyrchu. Mae Pwynt Rheoli Critigol (CCP) yn gam, gweithdrefn neu broses lle mae'n rhaid cymryd mesurau i atal, dileu neu leihau perygl bwyd posibl i lefel dderbyniol. Er mwyn sicrhau diogelwch bwyd, caiff pob CCP ei fonitro i sicrhau ei fod o fewn terfynau critigol.

Os bydd terfynau mewn perygl o gael eu torri, rhaid cymryd camau gweithredu i unioni'r sefyllfa. Dylai'r ffordd systematig hon o weithredu sicrhau, os yw'n gywir, bod bwyd yn cael ei gynhyrchu'n ddiogel.

Dyma saith gofyniad system HACCP:

- Cynnal dadansoddiad o beryglon a datblygu siartiau llif o ran cynhyrchiad
- Nodi Pwyntiau Rheoli Critigol
- Sefydlu terfynau critigol h.y. pennu lefelau targed y mae'n rhaid eu cyrraedd er mwyn sicrhau bod y CCP dan reolaeth
- Sefydlu system i fonitro'r gwaith o reoli'r CCP
- Sefydlu camau unioni i'w cymryd pan fydd y gwaith monitro yn dangos nad yw CCP o dan reolaeth
- Sefydlu gweithdrefnau dilysu i gadarnhau bod y system HACCP yn gweithio'n gywir
- Llunio dogfennaeth/cofnodion ar gyfer pob gweithdrefn

Mae dilyn gweithdrefnau HACCP yn:

- Annog prosesau rhagweithiol i nodi peryglon diogelwch bwyd cyn iddynt ddigwydd
- Sicrhau'r diogelwch gorau posibl o ran cynnyrch h.y. defaid glân

- Annistrywiol
- Rhoi tystiolaeth o ddiwydrwydd dyladwy
- Cost effeithiol
- Sicrhau diogelwch pob aelod o staff

Atodiad 4: Faint o le yr awgrymir ei roi i ddefaid a gedwir dan do

Tabl 1: Faint o le i'w roi i ddefaid a gedwir dan do.

Pwysau byw y ddafad (kg)	Arwynebedd ar wellt (m ² /pen)	Arwynebedd ar ddellt (m ² /pen)
23-32	0.6-0.9	0.4-0.5
32-45	0.7-0.9	0.5-0.7
45-60	1.0-1.2	0.7-0.9
60-90	1.2-1.4	0.9-1.1

Tabl 2: Faint o le i'w roi i gafnau ar gyfer defaid a gedwir dan do

Pwysau byw y ddafad (kg)	Dwysfwydydd (mm/pen)
23-32	300-350
32-45	350-400
45-60	400-450
60-90	450-500

Wrth fwydo gwair a silwair ar sail *ad libitum*, dylid caniatáu 10-12 cm fesul mamog o ran cafnau.

Atodiad 5: Gofynion deddfwriaethol ar gyfer lles defaid

Mae Deddf Diogelu Anifeiliaid 1911⁵, Deddf Amaethyddiaeth (Darpariaethau Amrywiol) 1968 a Rheoliadau Lles Anifeiliaid Fferm (Lloegr) 2000 (O.S 2000 Rhif 1870)⁶, yn ei gwneud yn drosedd i achosi neu ganiatáu poen neu ofid diangen.

Gall halogi'r croen â thail beryglu lles yr anifail drwy achosi niwed i'r croen, poen a risg gynyddol o haint. Yn ogystal, mae'n bosibl y cedwir anifeiliaid a gyflwynir mewn cyflwr brwnt mewn llociau i'w glanhau. Gallai'r driniaeth ychwanegol hon achosi straen diangen i'r anifail.

Mae Rheoliadau Lles Anifeiliaid Fferm (Lloegr) 2000 yn ei gwneud yn ofynnol i anifeiliaid gael digon o ddŵr yfed ffres bob dydd ac i gael bwyd bob dydd. Rhaid i'r deiet fod yn iach, yn briodol i'r rhywogaeth a rhaid darparu digon ohono er mwyn cynnal iechyd da a diwallu eu hanghenion maethol. Lle y cedwir anifeiliaid, ar wahân i ddofednod, mewn adeilad, rhaid iddynt gael eu cadw ar fan gorwedd a gaiff ei ddraenio'n dda neu ei gynnal a'i gadw'n dda â gwellt gwely sych neu rhaid iddynt allu cyrraedd man o'r fath.

Mae'r Cod Argymhellion ar gyfer Lles Da Byw: Rheoliadau Defaid (2003) (Lles Anifeiliaid Fferm (Lloegr) 2000 (O.S 2000 Rhif 1870)⁵) yn nodi:

- Rhaid bwydo anifeiliaid ar ddeiet iach, sy'n briodol i'w hoedran a'u rhywogaeth, a rhaid rhoi digon ohono iddynt i'w cadw'n iach, ac i ddiwallu eu hanghenion maethol a hyrwyddo cyflwr cadarnhaol o les.
- Rhaid i bob anifail naill ai allu cael gafael ar gyflenwad dŵr addas a chael digon o ddŵr yfed ffres bob dydd, neu allu diwallu eu hanghenion yfed hylif drwy ddulliau eraill.

Dylai anifeiliaid pori allu cael gafael ar nifer priodol o gafnau dŵr (sy'n ddigon mawr ac wedi'u cynllunio'n gywir) neu ffynhonnell arall o ddŵr yfed y gall yr anifeiliaid ei defnyddio'n hawdd lle bynnag y byddant yn pori.

- Rhaid i offer bwydo a dyfrhau gael eu cynllunio, eu hadeiladu, eu gosod a'u cynnal a'u cadw er mwyn lleihau'r risg o halogi bwyd a dŵr ac effeithiau niweidiol cystadleuaeth rhwng anifeiliaid.
- Gall cadw defaid dan do dros y gaeaf wella lles, ond gall problemau o ran clefyd a lles godi pan gaiff niferoedd mawr o ddefaid eu cadw gyda'i gilydd. Dylid gofyn am gyngor ar gynllunio, adeiladu ac addasu adeiladau. Mae system awyru ddigonol heb ddrafft yn arbennig o bwysig, yn ogystal â darparu digon o le i gafnau a man gorwedd.
- Caiff cylchrediad aer, lefelau llwch, tymheredd, lleithder cymharol a chrynodiad nwy eu cadw o fewn terfynau nad ydynt yn niweidiol i'r anifeiliaid.
- Mae cynllunio'r cylchdro pori, a defnyddio cynhyrchion meddygol neu frechiadau effeithiol, yn rheoli parasitiaid mewnol. Dylech ofyn am gyngor gan filfeddyg neu gynghorydd arbenigol ar amseru priodol, a chmau i'w cymryd i atal llyngyr ag ymwrthedd gwrthlyngyrol. Dylech atal parasitiaid allanol drwy ddipio neu ddefnyddio cemegau ataliol effeithiol.
- Dylai ffermwyr defaid ystyried cyflwr dannedd y praid ar adeg eu lladd. Os caiff defaid â dannedd gwael eu cadw, dylid rhoi bwyd iddynt y gallant ei fwyta a dylid monitro cyflwr eu cyrff yn ofalus.

⁵ Yng Ngogledd Iwerddon, Deddf Lles Anifeiliaid 1972 (Gogledd Iwerddon).

⁶ Rheoliadau Lles Anifeiliaid Fferm (Cymru) 2001 a Rheoliadau Lles Anifeiliaid Fferm (Gogledd Iwerddon) 2000. Rheoliadau Lles Anifeiliaid Fferm (Yr Alban) 2000 Rhif 442.

Rhagor o Wybodaeth

Llyfrynnau Cyfarwyddyd

Red Meat Safety and Clean Livestock Booklet FSA/0595/0602

Llyfryn Diogelwch Cig Coch a Da Byw Glân FSA/0953/1104

Clean Beef Cattle for Slaughter – A guide for producers
FSA/0951/1104

Gwartheg Cig Eidion Glân i'w Lladd – Canllaw i gynhyrchwyr
FSA/0958/0105

Posterï (nid yw'r rhain ar gael yn Gymraeg)

1. Harmful bacteria can spread between pens FSA/0905/0504
2. Harmful bacteria can spread in a dirty environment FSA/0906/0504
3. Bacteria on the fleece can transfer to the carcass FSA/0907/0504
4. Wet fleeces can increase the spread of bacteria FSA/0908/0504
5. Harmful bacteria in food and water will be shed in the faeces
FSA/0909/0504
6. Harmful bacteria can spread in dirty bedding FSA/0910/0504

Cyfeiriad gwefan Polisi Da Byw Glân yr FSA

[www.food.gov.uk/foodindustry/farmingfood/
cleancattleandmeatsafety/](http://www.food.gov.uk/foodindustry/farmingfood/cleancattleandmeatsafety/)

Er mwyn archebu copïau o'r cyhoeddiadau hyn a gynhyrchwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd, cysylltwch drwy un o'r ffyrdd canlynol:

Ffôn: 0845 606 0667

Minicom: 0845 606 0678

Ffacs: 020 8867 3225

E-bost: foodstandards@ecgroup.uk.com

Gwefannau Defnyddiol

Yr Asiantaeth Safonau Bwyd – www.food.gov.uk

Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig – www.defra.gov.uk

Cynulliad Cenedlaethol Cymru – www.cymru.gov.uk

Gweithrediaeth yr Alban – www.scotland.gov.uk

Cynulliad Cenedlaethol Gogledd Iwerddon – www.ni-executive.gov.uk

ADAS – www.adas.co.uk

Gwasanaeth Labordai Iechyd y Cyhoedd – www.phls.co.uk

Gallwch lwytho'r cyhoeddiad hwn i lawr o
www.foodstandards.gov.uk/publications

I archebu rhagor o gopïau o'r cyhoeddiad hwn cysylltwch â
Cyhoeddiadau'r Asiantaeth Safonau Bwyd:

ffôn: 0845 606 0667

minicom: 0845 606 0678

ffacs: 020 8867 3225

e-bost: foodstandards@ecgroup.uk.com

Dyfynnwch y cyfeirnod: FSA/1141/0307

Cyhoeddwyd gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Hawlfraint y Goron 2007

75% wedi'i ailgylchu
Argraffwyd y cyhoeddiad hwn ar bapur
wedi'i wneud o 75% o ddeunyddiau
wedi'u hailgylchu



ailgylchwch
Pan fyddwch wedi gorffen â'r
cyhoeddiad hwn ailgylchwch ef